



At:
Rheolwyr Gyfarwyddwyr Consortia Addysg Rhanbarthol

Cc:
Cyfarwyddwyr Addysg
Cydgysylltwyr 14-19 Rhanbarthol
Penaethiaid Ysgolion Uwchradd
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi

29 Hydref 2015

Annwyl Gyfeillion

Ysgrifennais atoch ym mis Gorffennaf y llynedd, a dilynodd llythyr pellach gan Kate Crabtree ym mis Tachwedd, gan nodi'r newidiadau sy'n cael eu gwneud i'r ffordd y bydd rhai cymwysterau yn cyfrif tuag at fesurau perfformiad ysgolion yng Nghyfnod Allweddol 4.

Rwyf yn ysgrifennu eto i dynnu sylw at ein cynnydd o ran gweithredu'r newidiadau ac i ychwanegu rhagor o fanylion am rai materion penodol.

Ceir nodyn atgoffa am yr holl newidiadau sy'n digwydd yn yr atodiad sydd ynghlwm.

Newidiadau sydd wedi'u cwblhau

Cafodd y newid cyntaf ei weithredu yn 2013 pan ddechreuwyd adrodd ar wahân ar gyrrhaeddiad mewn TGAU Cymraeg Iaith/Saesneg Iaith a Mathemateg.

O 2016

Yn hydref 2016, ar gyfer canlyniadau 2015-16, byddwn yn symud i adrodd ar berfformiad ysgolion ar sail cohort blwyddyn 11 yn hytrach nag ar gyfer dysgwyr 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn. Tan hynny, rydym yn dal i adrodd ar fesurau perfformiad drwy ddefnyddio'r dull cohort seiliedig ar oedran. Mae canlyniadau terfynol Cyfnod Allweddol 4 yn cael eu paratoi ar hyn o bryd i'w cyhoeddi ar gyfer blwyddyn adrodd 2014-15 ac ni wneir unrhyw newidiadau i'r diffiniad presennol o'r cohort ar gyfer y set hon o ganlyniadau.

Mae hwn yn newid a argymhellir sy'n deillio o'r Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed yng Nghymru, a dadleuwyd yn gryf bod hyn yn sail decach ar gyfer mesur perfformiad ysgolion. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r newid hwn, efallai y byddwn yn gweld rhai anghysondebau dros y ddwy flynedd nesaf wrth i ni symud o

un sail i sail arall. Er enghraifft, yn ystod 2015 a 2016 efallai y byddwn yn gweld achosion o'r canlynol:

- Dysgwyr wedi'u hepgor yn y ddwy flynedd.
Pan fydd dysgwr yn cael ei addysgu yng ngrŵp blwyddyn 11 yn 2015 ond mae'n 14 oed (mae'r disgybl o flaen ei grŵp blwyddyn naturiol), ni fydd canlyniadau'r dysgwr yn cyfrif y flwyddyn hon am nad yw'n 15 oed. Ni fydd canlyniadau'r dysgwr yn cyfrif y flwyddyn nesaf ychwaith am na fydd ym mlwyddyn 11. Ni fydd canlyniadau CA4 y dysgwr byth yn cael eu cyfrif yn ein hystadegau swyddogol.
- Dysgwyr wedi'u cyfrif yn y ddwy flynedd.
Pan fydd dysgwr yn cael ei addysgu yng ngrŵp blwyddyn 10 ond mae'n 15 oed (mae'r dysgwr y tu ôl i'w grŵp blwyddyn naturiol), bydd canlyniadau'r dysgwr yn cyfrif yn 2015 am ei fod yn 15 oed ac yn 2016 oherwydd bydd ym mlwyddyn 11 erbyn hynny. Bydd canlyniadau'r dysgwr yn cael eu cyfrif mewn dwy flynedd yn olynol.

Bydd y sefyllfaoedd penodol hyn dim ond yn digwydd ar gyfer y flwyddyn newid. Fodd bynnag, o 2016 ymlaen, pan fydd dysgwr yn ail-wneud blwyddyn 11 bydd ei ganlyniadau yn cael eu cyfrif mewn blynnyddoedd olynol.

I helpu ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia i fesur effaith y newid mewn cohort byddwn yn darparu mesurau allweddol a gyfrifir ar sail blwyddyn 11 a 15 oed yn 2016, er mai dim ond data blwyddyn 11 fydd yn cael eu cyhoeddi ar Fy Ysgol Leol a'u defnyddio wrth gategoreiddio a Setiau Data Craidd Cymru Gyfan.

Yn 2016, byddwn hefyd yn gweld terfyn ar werth cyfraniad cymwysterau nad ydynt yn TGAU i fesurau perfformiad. Bydd gan unrhyw gymhwyster unigol uchafswm cyfwerthedd, o ran perfformiad, o 2 TGAU, sy'n berthnasol i bob mesur.

O 2017

Bydd newid yn 2017 yn y cymwysterau sy'n cyfrif tuag at elfennau llythrennedd a rhifedd mesurau allweddol.

Oherwydd bod pob ysgol bellach yn cyflawni i'r manylebau newydd ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith, TGAU Saesneg Iaith, TGAU Mathemateg – Rhifedd a TGAU Mathemateg, hoffwn sicrhau bod dealltwriaeth glir o ran sut y bydd y rhain yn cyfrannu at y mesurau perfformiad o 2017 ymlaen, a sut y bydd cymwysterau blaenorol yn cael eu trin.

Gwnaeth yr Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed yng Nghymru dynnu sylw at y ffaith bod angen diwygiadau i'r TGAU Cymraeg Iaith a TGAU Saesneg Iaith er mwyn rhoi mwy o sicrwydd o ran llythrennedd. Argymhellwyd hefyd gyflwyno dau TGAU mathemateg newydd, un yn cwmpasu rhifedd a'r llall yn cwmpasu agweddau ar dechnegau mathemateg. O ystyried hyn, mae'r cymwysterau newydd hyn, sydd wedi'u diweddarau ac yn fwy priodol, ar gael i ysgolion i'w haddysgu am y tro cyntaf o fis Medi eleni. I adlewyrchu hyn, byddwn yn gweld y newidiadau canlynol i fesurau perfformiad ar gyfer adrodd o 2017:

- **Effaith ar y Sgôr Pwyntiau Wedi'i Chapio**
 - **Dim ond y manylebau newydd ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith, TGAU Saesneg Iaith, TGAU Mathemateg-Rhifedd a TGAU Mathemateg** fydd yn cyfrif tuag at elfennau llythrennedd a mathemateg y sgôr pwyntiau wedi'i chapio newydd.
 - **Ni fydd** y cymwysterau blaenorol yn cyfrif tuag at yr elfennau llythrennedd a rhifedd. **Mae hyn yn cynnwys sefyllfaoedd lle mae dysgwr wedi'i gofrestru ar gyfer arholiad yn gynnar ac wedi sicrhau cyrhaeddiad mewn cymhwyster blaenorol cyn 2016-17.** Er enghraifft, ni fyddai dysgwr ym mlwyddyn 11 a gyrhaeddodd hen fanyleb 'flaenorol' mewn TGAU Cymraeg Iaith, Saesneg Iaith neu Fathemateg pan oedd ym mlwyddyn 10 neu is, yn 2016 neu'n gynharach, yn cael ei gyfrif fel un a gyflawnodd elfennau llythrennedd a rhifedd gofynnol y sgôr pwyntiau wedi'i chapio yn 2017 am nad oedd wedi cyrraedd cymwysterau'r fanyleb newydd fel rhan o garfan blwyddyn 11 yn 2017.
 - **Ni fydd** cymwysterau llenyddiaeth yn cyfrif tuag at elfen lythrennedd ofynnol y sgôr pwyntiau wedi'i chapio o 2017, ond byddant yn cyfrif fel rhan o bedwar cymhwyster gorau 'arall' y dysgwr.
 - Bydd y fanyleb flaenorol ar gyfer TGAU Saesneg, Cymraeg a Mathemateg yn cyfrif tuag at y gofynion cyffredinol (nad ydynt yn ymwneud â llythrennedd a rhifedd) ar gyfer mesurau perfformiad, gan gynnwys y pedwar cymhwyster 'arall' yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio newydd. **Fodd bynnag, byddant dim ond yn cyfrif ar gyfer dysgwyr nad ydynt wedi'u cofrestru ar gyfer y TGAU newydd cyfatebol.** Pan fydd gan ddysgwyr gymwysterau yn y manylebau TGAU newydd a'r rhai blaenorol cyfatebol byddwn yn cynnwys manyleb y TGAU newydd yn unig yn y mesur, gan gynnwys lle mae'r radd a gyrhaeddwyd yn y TGAU blaenorol yn uwch nag yn y radd a gyrhaeddwyd ym manyleb y TGAU newydd.
- **Effaith ar Fesur Lefel 2 Cynwysedig**
 - **Dim ond y manylebau newydd ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith, TGAU Saesneg Iaith a TGAU Mathemateg-Rhifedd** fydd yn cyfrif tuag at elfennau llythrennedd a rhifedd y mesur Lefel 2 Cynwysedig.
 - **Ni fydd** y fanyleb TGAU Mathemateg flaenorol na'r fanyleb TGAU Mathemateg newydd yn cyfrif tuag at elfen rifedd mesur Lefel 2 cynwysedig. **Mae hyn yn cynnwys sefyllfaoedd lle mae dysgwr wedi'i gofrestru ar gyfer arholiad yn gynnar ac wedi cyrraedd dyfarniad cymwysterau blaenorol cyn 2016-17 fel yr amlinellir yr enghraifft Sgôr Pwyntiau Wedi'i Chapio uchod.**
 - Pan fydd dysgwr wedi'i gofrestru ar gyfer y TGAU newydd a'r TGAU blaenorol cyfatebol yn Saesneg, Cymraeg a Mathemateg, manylebau'r TGAU newydd fydd yn cyfrif fel y cyfraniad tuag at y mesur Lefel 2 Cynwysedig, a chaiff y cymwysterau blaenorol eu diystyru, gan gynnwys lle mae'r radd a gyflawnwyd yn y fanyleb flaenorol yn uwch nag yn y fanyleb newydd.
 - **Ni fydd** cymwysterau llenyddiaeth yn cyfrif tuag at yr elfen lythrennedd ofynnol o 2017 ymlaen, ond byddant yn cyfrif fel rhan o dri chymhwyster 'arall' y dysgwr o fewn mesur Lefel 2 Cynwysedig.

Mae sawl newid arall i fesurau perfformiad yn cael eu gwneud yn 2017 a 2018; ceir nodyn atgoffa am y rhain yn yr atodiad sydd ynghlwm a cheir rhagor o fanylion a gohebiaeth flaenorol yn:

<http://gov.wales/topics/educationandskills/qualificationsinwales/revofqualen/key-stage-4-performance-measures-stakeholder-survey/?skip=1&lang=cy>

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, mae croeso i chi anfon e-bost atom yn ims@wales.gsi.gov.uk.

Yn gywir

A handwritten signature in grey ink that reads "Steve Vincent". The signature is written in a cursive style with a large initial 'S'.

Steve Vincent
Dirprwy Gyfarwyddwr
Rheolaeth Ysgolion

Atodiad – newidiadau i fesurau perfformiad CA4 (dyfyniad o lythyr a anfonwyd ar 3 Gorffennaf). Y flwyddyn adrodd yw'r flwyddyn y mae'r cohort sy'n cael ei fesur yn cwblhau blwyddyn 11.

Newid	Blwyddyn gyflwyno (ar gyfer adrodd)
Adrodd ar wahân ar gyrhaeddiad mewn TGAU Cymraeg Iaith/Saesneg Iaith a Mathemateg. O 2017 ymlaen, bydd cyrhaeddiad yn y ddau TGAU mathemateg newydd yn cael eu hadrodd.	2013
Defnyddio cohortau blwyddyn 11 cyfan fel sail ar gyfer adrodd, yn hytrach na dysgwyr sy'n 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn	2016
Uchafswm cyfwerthedd, o ran mesurau perfformiad, o 2 TGAU ar gyfer unrhyw gymhwyster. Mae hyn yn berthnasol i bob mesur perfformiad.	2016
Cyflwyno'r sgôr pwyntiau wedi'i chapio newydd	2017
Mwy o bwyslais ar y sgôr pwyntiau wedi'i chapio newydd nag ar y mesurau trothwy (gan gynnwys mesurau Bagloriaeth Cymru, wedi iddynt gael eu cyflwyno).	2017
Dangosydd Pynciau Craidd ddim yn cael ei gyhoeddi mwyach (ond data ar gael).	2017
Terfyn o 40% ar gymwysterau nad ydynt yn TGAU yn y mesurau trothwy	2017
Defnyddio'r TGAU newydd mewn Cymraeg Iaith/Saesneg Iaith a Mathemateg-Rhifedd fel elfennau llythrennedd a rhifedd y mesur Lefel 2 cynwysedig. Cymwysterau llenyddiaeth ddim yn cyfrif mwyach tuag at yr elfen lythrennedd.	2017
Cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru a Sgiliau Allweddol Ehangach ddim yn cael unrhyw bwyntiau perfformiad (trothwy na sgôr pwyntiau wedi'i chapio).	2017
Mesurau Bagloriaeth Cymru yn disodli'r mesurau trothwy presennol (Lefel 1, Lefel 2 a Lefel 2 cynwysedig).	2018
Defnyddio TGAU yn unig ar gyfer gofynion gwyddoniaeth (wedi i'r gyfres TGAU gwyddoniaeth newydd gael ei chyflwyno i'w haddysgu o fis Medi 2016).	2018

Newidiadau ar gyfer adrodd o haf 2016:

1. Ni cheir cyfrif cymwysterau 14-16 oed nad ydynt yn TGAU i gyfateb i fwy na 2 TGAU. Bydd gwerth pwyntiau perfformiad y cymwysterau Lefel 1 neu 2 hynny sy'n gyfwerth â mwy na dau TGAU ar hyn o bryd yn cael eu capio i fod yn gyfwerth â dau TGAU. Bydd hyn yn effeithio ar fesurau trothwy Lefel 1, Lefel 2 a Lefel 2 cynwysedig, y sgôr pwyntiau wedi'i chapio, ac o 2017, y mesurau ar gyfer Bagloriaeth Cymru (gweler isod).

Noder: mae'r polisi yng Nghymru yn wahanol i'r polisi yn Lloegr lle mae'r gwerth y mae cymwysterau yn gyfwerth ag ef yn cael ei gyfyngu i un TGAU.

2. Byddwn yn defnyddio cohortau blwyddyn 11 cyfan fel sail ar gyfer adrodd, yn hytrach na dysgwyr sy'n 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn.

Newidiadau ar gyfer adrodd o haf 2017:

3. Caiff sgôr pwyntiau wedi'i chapio newydd ei chyflwyno. Bydd y sgôr pwyntiau wedi'i chapio newydd yn defnyddio'r fethodoleg sgorio bresennol, sy'n rhoi sgorau gwahanol i bob gradd ac sydd hefyd yn ystyried maint y cymhwyster. Bydd y sgôr newydd yn wahanol iawn i'r sgôr pwyntiau wedi'i chapio fel y mae ar hyn o bryd mewn sawl ffordd:

- Bydd y sgôr yn seiliedig ar naw cymhwyster yn hytrach nag wyth
- Dyma bump o'r naw cymhwyster a ddefnyddir i gyfrifo'r sgôr:
 - TGAU Cymraeg Iaith neu TGAU Saesneg Iaith (pa un bynnag sydd orau yn achos pob dysgwr)
 - TGAU Mathemateg – Rhifedd a TGAU Mathemateg
 - Dau gymhwyster gwyddoniaeth gorau pob dysgwr (o 2018 ymlaen, dau TGAU gwyddoniaeth gorau pob dysgwr)
- Pedwar cymhwyster gorau (graddau uchaf) arall pob dysgwr fydd y gweddill. Gallai'r rhain fod yn TGAU, cymwysterau galwedigaethol neu'n Dystysgrif Her Sgiliau (craidd Bagloriaeth Cymru ar ei newydd wedd).

4. Bydd terfyn o 40 y cant o safbwynt cyfraniad cymwysterau nad ydynt yn TGAU at fesurau trothwy Lefel 1, Lefel 2 a Lefel 2 cynwysedig. Ni fydd terfyn ar gyfraniad cymwysterau nad ydynt yn TGAU at y sgôr pwyntiau wedi'i chapio newydd (eto i gyd, fel y nodir uchod, mae'n ofynnol fod rhai cymwysterau penodol yn rhan o'r naw).

5. Bydd cymwysterau addas ac iddynt o leiaf 60 o oriau dysgu dan arweiniad ond llai na 120 o oriau dysgu dan arweiniad yn cael gwerth cyson cyfwerth â 0.5 TGAU.

Newidiadau ar gyfer adrodd o 2018

6. Bydd mesurau cyrhaeddiad Bagloriaeth Cymru ar ei newydd wedd ar lefel Sylfaen a lefel Genedlaethol (Lefelau 1 a 2) hefyd yn cael eu cyflwyno. Bydd y mesurau newydd hyn yn dechrau disodli'r mesurau trothwy presennol ar gyfer Lefel 1, Lefel 2 a Lefel 2 Cynwysedi